



Andrew Farrow
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd)
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NF

Ein cyf : Our ref : qA1315068

13 Rhagfyr 2017

Annwyl Mr Farrow

Cyngor Sir y Fflint – Ymgynghoriad o dan Reoliad 15 ar y Strategaeth a Ffefrir: Ymateb Llywodraeth Cymru

Diolch ichi am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ynghylch dogfennau cyn-adneuo Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Cyngor Sir y Fflint. Mae'n hanfodol bod gan yr Awdurdod CDLI diweddar a fydd yn cyflawni'r weledigaeth a'r amcanion allweddol, ac yn rhoi sicrwydd i gymunedau lleol a buddsoddwyr. Rydym yn sylweddoli bod paratoi CDLI a'r dystiolaeth ategol yn dipyn o dasg ac yn cydnabod yr holl waith a wnaed gan eich Awdurdod hyd yma o ran symud y Cynllun yn ei flaen at y cyfnod o lunio'r Strategaeth a Ffefrir.

Heb effeithio ar ddisgresiwn y Gweinidogion i ymyrryd yn nes ymlaen yn y broses na'r archwiliad annibynnol, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i leddfu'r risg o gyflwyno dogfennau di-sail drwy wneud sylwadau priodol cyn gynted â phosibl yn y broses o baratoi dogfennau. Mae'r Llywodraeth yn edrych am dystiolaeth glir bod y profion i weld pa mor gadarn yw'r cynllun (fel y nodir yn y 'Llawlyfr CDLI') wedi'u cynnal.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi, ar y cyfan, y Strategaeth a Ffefrir sydd â'r nod o leoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, a sicrhau bod y datblygiadau yn gysylltiedig â rôl a swyddogaeth y lleoliadau hynny, gan gefnogi ardaloedd gwledig ar yr un pryd. **Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi, yn gyffredinol, lefel y tai a'r swyddi arfaethedig** o ystyried yr amrywiaeth o faterion y mae'r Cynllun yn bwriadu ymdrin â nhw, megis ymdrin â'r angen difrifol am dai fforddiadwy, y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n allfudo a'r dirywiad mewn poblogaeth, a'r angen i gynyddu gweithgarwch economaidd er mwyn gallu manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o uchelgeisiau i gyflawni twf rhanbarthol yn y Gogledd. At ei gilydd, mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r gwaith technegol sy'n cael ei wneud gan y Cyngor o ran mabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at bolisiâu cenedlaethol yn hynny o beth.

Fel yr ydych yn sylweddoli, bydd medru dangos sut y mae'r strategaeth yn cael ei gweithredu, gan gyfeirio'n benodol at y dyraniadau strategol, yn hanfodol a dylai tystiolaeth yr Awdurdod yn y Cynllun Adneuo ategu hynny. Dylai hyn gynnwys tystiolaeth o ran hyfywedd. Rydym yn esbonio hyn ymhellach yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Caiff y system cynllunio datblygiadau yng Nghymru ei harwain gan dystiolaeth a bydd dangos sut y mae'r dystiolaeth yn llywio cynllun yn un o ofynion allweddol yr archwiliad.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ynghyd â darpariaethau i gyrrff cyhoeddus fedru cyfrannu at gyflawni hynny; er mwyn cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r budd sy'n deillio ohonynt. Dylai'r Strategaeth a Ffefrir nodi trywydd ar gyfer sut y bydd y cynllun yn gwella a pheidio â lleihau bioamrywiaeth, ac yn gwella cydnerthedd ecosystemau. Ar hyn o bryd, nid yw'r Strategaeth a Ffefrir yn adlewyrchu Deddf yr Amgylchedd yn ddigonol, ac nid yw'n rhoi ymateb polisi a fyddai'n gwella cydnerthedd ecosystemau. Byddwn yn hapus i gwrdd â chi i'ch helpu i ddatblygu polisi priodol a fydd yn sail i'r Cynllun Adneuo.

Mae ein sylwadau hefyd yn cynnwys **materion eraill** sydd wedi'u nodi'n fanwl yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Ar y cyd, mae ein sylwadau yn hoelio sylw ar amrywiaeth o faterion sydd angen ichi, yn ein barn ni, fynd i'r afael â nhw cyn bod modd ystyried y Cynllun yn un cadarn. Rydym wedi tyngu sylw at y manau hynny lle nad yw'r dystiolaeth yn ddigon clir a lle bo modd gwella neu gryfhau'r sylfaen dystiolaeth wrth symud ymlaen. Mae rhai meysydd allweddol yn cynnwys:

- Tai Fforddiadwy
- Cyflenwi a Chyflwyno fesul Cam
- Cyflogaeth
- Sipsiwn a Theithwyr
- Mwynau
- Ynni Adnewyddadwy

Rydym yn eich cynghori'n gryf i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn rhoi'r cyfle gorau i'ch CDLI gael ei ystyried yn un cadarn yn ystod y cyfnod adneuo.

Byddwn yn eich annog, fel y gwnawn o hyd, i gael cyngor cyfreithiol eich hun i sicrhau eich bod wedi bodloni'r holl ofynion gweithdrefnol, gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd, Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan mai eich Awdurdod chi sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y materion hyn.

Os hoffech drefnu **dyddiad cynnar** i gwrdd er mwyn trafod unrhyw faterion sy'n codi o'n hymateb ffurfiol i'ch Strategaeth a Ffefrir, cysylltwch â mi. Dylech nodi eich ymateb i'n sylwadau yn eich Dogfen Ymgynghori.

Yn gywir



Mr Mark Newey
Pennaeth y Gangen Cynlluniau
Yr Is-adran Gynllunio

Atodiad i lythyr gan Lywodraeth Cymru (13 Rhagfyr) mewn ymateb i'r Strategaeth a Ffefrir – Cyngor Sir y Fflint.

Y Strategaeth Ofodol

Eglurder ynghylch y gyfran twf a'r elfennau cyflenwi – Mae'r dosbarthiad eang o dwf tai yn yr haenau aneddiadau (tudalen 57) a'r elfennau cyflenwi (tudalen 99) yn ddefnyddiol i ddeall faint o dwf, yn gyffredinol, a fydd yn perthyn i bob haen. Dylai'r Cynllun Adneuo fod yn glir o ran sut y bydd yr holl elfennau tai yn cael eu dosbarthu yn ofodol fesul haen ar ffurf rhifau, nid yn unig ar ffurf canrannau eang. Byddai tabl i ddangos hyn yn fanteisiol. Byddai hynny'n sicrhau eglurder ac yn galluogi'r Cynllun i gael ei fonitro'n effeithiol.

Yr Angen am Dai Fforddiadwy - Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA) – Mae LHMA (2015) yn hoelio sylw ar yr angen dybryd am dai fforddiadwy yn Sir y Fflint o 246 o dai y flwyddyn. Nid yw'n glir sut y mae canfyddiadau LHMA wedi dylanwadu ar faint a lleoliad y twf. Dylid disgrifio'n glir y gwahaniaeth rhwng y ddarpariaeth yn yr hierarchaeth aneddiadau a'r angen, gan esbonio pam bod twf wedi'i nodi mewn lleoliadau penodol er mwyn medru cyflenwi'r nifer mwyaf o dai fforddiadwy yn y manau hynny. Mae hyn yn hynod bwysig gan nad oes targed/ystod eang ar gyfer tai fforddiadwy wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Dylai'r cysylltiadau â materion cynaliadwyedd hefyd fod yn gyson hy pam ei bod neu pam nad yw'n briodol lleoli tai fforddiadwy mewn cymunedau llai cynaliadwy.

Targed, Polisi a Gwaith Hyfywedd o ran Tai Fforddiadwy

Mae asesiad hyfywedd cyffredinol wedi'i gyflwyno fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, ond nid yw'r gwaith hwn wedi'i gynnwys yn y Cynllun. Nid oes targedau/ystodau ar gyfer tai fforddiadwy neu bolisi tai fforddiadwy sy'n dangos trywydd sy'n seiliedig ar y gwaith hwn wedi'u cynnwys yn y Strategaeth a Ffefrir. Mae'n anodd mynegi sylwadau ar y mater hwn gan nad yw'n glir sut y mae LHMA a thystiolaeth o hyfywedd wedi llywio targedau polisi, dosbarthiad gofodol, dwysedd a maint safleoedd tai.

Dylai'r Cynllun Adneuo nodi sut y bydd targed y Cynllun yn cael ei gyflawni, gan gynnwys targedau a throthwyon ar gyfer safleoedd penodol. Mae'n rhaid i dystiolaeth fod yn sail i dargedau polisi heriol, a rhaid iddynt fod yn berthnasol i'r rhan fwyaf o geisiadau, gan ganiatáu ar yr un pryd i drafodaethau ar safleoedd penodol gael eu cynnal (lle bo angen ac ynghylch nifer cyfyngedig o safleoedd). Ar ben hynny, dylai'r Cynllun Adneuo fod yn glir ynghylch yr amcangyfraniad o dai fforddiadwy fesul haen. Byddai tabl i ddangos hyn yn fanteisiol. Byddai hynny'n sicrhau eglurder ac yn galluogi'r Cynllun i gael ei fonitro'n effeithiol.

Cyflenwi

Cyflenwi a Chyflwyno fesul Cam: Cyffredinol – Bydd cyflwyno'r safleoedd fesul cam, eu hamseriad, sut y byddant yn cael eu cyllido a'u cyflenwi yn rhan hollbwysig i sicrhau bod y Cynllun yn sicrhau'r twf sydd ei angen mewn lleoliadau i ateb yr anghenion ar hyd cyfnod y cynllun. Byddai'n fuddiol petai'r Cynllun Adneuo yn nodi manylion dyraniadau safleoedd penodol a fyddai'n cynnwys amserlenni cyflwyno cyffredinol, y seilwaith a'r egwyddorion cynllunio allweddol, gofynion y datblygwr, cyfyngiadau, a gofynion y darparwr a'r seilwaith lle bo'n briodol.

Mae angen i'r Cyngor ddangos yn wirioneddol bod safleoedd unigol a safleoedd ar y cyd ar gael a bod modd eu cyflenwi. Mae'n bwysig bod hyrwyddwyr safleoedd yn parhau i fod yn rhan o'r broses ac yn deall pa mor bwysig yw dangos bod safleoedd yn cael eu cyflenwi, yn enwedig mewn perthynas â dyraniadau strategol. Byddai Datganiadau Tir Cyffredin yn fanteisiol i ddangos y bydd safleoedd yn cael eu cyflwyno o fewn yr amserlenni a nodir. Mae'r sylwadau hyn hefyd yn gymwys i safleoedd anstatudol allweddol.

Bydd diben yr Awdurdod i baratoi trywydd tai ar gyfer y Cynllun Adneuo yn helpu pob parti i ddeall sut y bydd safleoedd yn gallu cael eu cyflenwi dros gyfnod y cynllun. Dylai'r trywydd hwn fod yn seiliedig ar ddadansoddiad a dealltwriaeth o amserau cyflwyno ar gyfer safleoedd strategol, y gydberthynas rhwng safleoedd o'r fath, cyfyngiadau posibl, costau, gofynion o ran seilwaith a ffrydiau cyllido, ynghyd â rhagdybiaethau cadarn o ffawdelw er mwyn dangos bod modd cyflenwi tir ar gyfer tai dros 5 mlynedd o adeg mabwysiadu'r Cynllun.

Cyflenwi Safleoedd yn Strategol – O'r 3,077 o aneddiadau arfaethedig i'w dyrannu yn y Cynllun, bydd dros hanner ohonynt (o leiaf 53%) yn cael eu lleoli ar 2 safle strategol defnydd cymysg; Porth y Gogledd (1325 o unedau) a Warren Hall (300 o unedau). Bydd gweddill y tai yn cael eu nodi ar ddyraniadau bach a chanolig (CDP, paragraff 7.1.3). Wrth ganolbwyntio ar dwf sydd wedi'i gyfeirio at y safleoedd strategol, mae'r Awdurdod yn cynghori y bydd yn edrych yn fanwl ar y dyraniadau drwy ei Asesiad o Anghenion Seilwaith a'i Gynllun Cyflenwi (Papur Pwnc 12) i sicrhau bod modd eu cyflenwi dros gyfnod y cynllun a'u bod yn gallu cyfrannu at dwf economaidd ac anghenion tai'r Fwrdeistref Sirol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith ychwanegol hwn.

Mae cyflenwi'r safleoedd strategol yn rhan annatod o gyflenwi'r strategaeth ar gyfer tai a swyddi. Bydd yn rhaid bod gan y safleoedd hyn dystiolaeth glir a fydd yn nodi'r gofynion o ran seilwaith a'u costau cysylltiedig yn ogystal â syniad o amseriadau allweddol y gwaith, camau'r broses a'r mecanweithiau/partneriaid cyllido er mwyn sicrhau bod modd cyflenwi'r seilwaith angenrheidiol, pan fo angen. Dylai esbonio sut y bydd y safleoedd strategol yn cael eu cyflwyno fesul cam helpu i gyflenwi'r strategaeth; creu swyddi newydd ochr yn ochr â chyflwyno tai, gan fynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy. I roi sicrwydd, gallai egwyddorion allweddol rhoi caniatâd cynllunio amlinellol i'r ddau safle, gan gynnwys fframweithiau amlinellol, gael eu cynnwys ym Mholisi STR3 os ydynt yn dal i fod yn briodol.

Tai: Lwfans Hyblygrwydd – Nid yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu lefel yr hyblygrwydd yn y Cynllun. Cyfrifoldeb y Cyngor fydd dangos pam bod 10% yn briodol, gan gynnwys sut y mae'r hyblygrwydd yn ymwneud â'r holl elfennau tai, a sut byddant yn cael eu cyflenwi a'u cyflwyno fesul cam dros gyfnod y Cynllun. Dylai'r Awdurdod ddangos bod digon o hyblygrwydd drwy gydol cyfnod y Cynllun i ddelio ag unrhyw anawsterau neu amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld. Bydd trywydd tai yn helpu i ddangos hyn.

Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) a Rhwymedigaethau Cynllunio – Mae'r Awdurdod yn bwriadu ariannu'r gofynion o ran seilwaith drwy gyfraniadau S106 a threfniant CIL pan fydd y Cynllun wedi'i fabwysiadu (CDLI, paragraff 5.6.5). Nodwn fod Asesiad Hyfywedd y Cyngor (Medi 2014) yn ystyried codi CIL. Mae Llywodraeth Cymru o blaid bod angen cadw tystiolaeth o'r gwaith o gyflenwi safleoedd dros gyfnod y Cynllun. Er hynny, wrth gyfuno cyfyngiadau o ran cytundebau S106 a'r ansicrwydd cychwynnol ynghylch a fyddai datblygiadau yn Sir y Fflint yn gallu cynnal codi CIL (Papur Pwnc 12), dylai'r Awdurdod fod yn bendant bod cyllid ar gael i gyflenwi'r seilwaith angenrheidiol, ar yr adeg briodol yng nghyfnod y Cynllun.

Cyflogaeth

Gofyniad Tir Cyflogaeth a Tharged Swyddi – Mae'r Adolygiad o Dir Cyflogaeth (2015) yn nodi gofyniad tir o 28.50ha dros gyfnod y Cynllun (paragraff 11.18). Mae asesiad i ganfod y sefyllfa ddiweddaraf yn ystyried amgylchiadau lleol, gan gynnwys datblygu Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy (100ha), Warren Hall (36.5ha) a'r rhagolygon diweddaraf o ran y boblogaeth. Daeth yr asesiad diweddaraf hwn i'r casgliad y gallai'r ddau safle strategol greu hyd at 10,000 o swyddi newydd pan fyddant wedi eu cwblhau gyda'r gofyniad net uchaf o ran tir cyflogaeth yn 39.73ha (Senario C). Fodd bynnag, mae'r Papur Technegol (Tachwedd 2017) yn cynyddu'r gofyniad tir cyflogaeth yn fwy i raddfa o 56.5ha - 70.7ha. Dylai'r Cynllun Adneuo nodi'n glir ffigur sy'n cyd-fynd â'r dystiolaeth, gan esbonio sut y mae'n gysylltiedig â'r targed swyddi. Ar hyn o bryd, mae sawl cyfeiriad at y gofyniad tir cyflogaeth ac mae hynny'n peri dryswch. Dylai'r Cyngor fireinio'r

cyfeiriadau at 'gyflenwi', 'darparu' a 'gofyniad' yng nghyd-destun tir cyflogaeth gan fod y termau hyn yn cael eu defnyddio yn gymysg yn y Cynllun a'r dystiolaeth ategol. Dylid nodi'n glir faint y tir cyflogaeth presennol a'r ddarpariaeth sydd wedi'i dyrannu i sicrhau twf mewn swyddi dros gyfnod y Cynllun.

Mae Polisi STR1 yn gwneud darpariaeth ar gyfer 223ha o dir cyflogaeth, er nad yw'n glir pa un ai cyfanswm y cyflenwad presennol yw hyn neu'r dyraniadau y bwriedir eu gwneud. Mae'r ffigur uchaf yn y dystiolaeth gefndir o ryw 71ha yn arwain at orddarpariaeth o 152ha o dir cyflogaeth. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu hyn er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth o safleoedd, dylai'r Cynllun Adneuo egluro sut y mae'r orddarpariaeth yn helpu i gyflawni'r targed o ran swyddi. Dylai darparu 223ha arwain at y gofyniad tir (mewn ha) sydd ei angen i gyflawni'r targed o ddarparu 8,000-10,000 o swyddi dros gyfnod y Cynllun. Dylai'r polisi restru'r safleoedd dynodedig sy'n cynnwys y dyraniad gofynnol hwn fesul maint (mewn ha) a defnydd dosbarth B arfaethedig ar gyfer pob safle.

Polisi Diogelu – Mae'r Cynllun yn nodi 30 prif ardal cyflogaeth sy'n bodoli eisoes a 2 safle strategol at ddefnydd cymysg. Mae rhai ohonynt yn safleoedd allweddol o fewn yr Ardal Fenter. Dylai'r Cynllun restru'r prif ardaloedd cyflogaeth mewn Polisi Diogelu a nodi'r ardaloedd hyn yn ofodol ar y Map Cynigion.

Gwastraff

Yn unol â meini prawf iv Polisi Strategol STR 15, mae'n rhaid i'r awdurdod asesu a nodi pa safleoedd cyflogaeth sy'n addas ac yn briodol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff (Nodyn Cyngor Technegol 21, paragraff 3.22).

Ynni Adnewyddadwy

Mae'n rhaid i'r Cynllun Adneuo ddatblygu polisiau ynni adnewyddadwy yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru a Llawlyfr Llywodraeth Cymru i Gynllunwyr (2015), gan ystyried pob mater perthnasol a gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth pan fo'r Llawlyfr yn hwyluso'r ffordd hon o weithio. Dylai:

- Ddangos sut yr ystyriwyd yr Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (REA) ar y Safle Ymgeisiol; sut y mae cyfleoedd ynni adnewyddadwy a charbon isel wedi llywio maint/lleoliad y dyraniadau.
- Nodi cyfraniad ardal y Cynllun at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan gynnwys nodi lleoliadau a ffefrir ar y Map Cynigion. Dylai polisiau helpu i gyflenwi'r cyfraniad, a bod hynny'n cael ei adlewyrchu yn y Fframwaith Monitro.
- Cynnwys fframwaith polisi sy'n annog datblygu ynni adnewyddadwy ar raddfeydd gwahanol yn unol â'r polisi cenedlaethol (Polisi Cynllunio Cymru, Ffigur 12.2) a chasgliadau'r REA. Dylid hefyd sicrhau bod y polisi yn nodi meini prawf lleol eglur y bydd angen i gynigion ar gyfer prosiectau ar raddfa is nag Awdurdod Lleol eu bodloni mewn asesiad (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 12.9.9).
- Chwilio am gyfleoedd i gyd-leoli datblygiadau mawr, megis y safleoedd strategol, i wneud y defnydd gorau o ynni adnewyddadwy ac i hyrwyddo cynlluniau gwresogi rhanbarthol (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 12.8.18).

Sipsiwn a Theithwyr

Mae'n rhaid edrych ar yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr er mwyn gweld yn union yr hyn yw'r angen dybryd dros 5 mlynedd oherwydd bod anghysondeb rhwng yr hyn a nodir yn yr Asesiad a'r Strategaeth a Ffefrir. Mae'r Strategaeth yn nodi bod angen 5 maes (paragraff 7.2.4) ond mae Asesiad 2016 (paragraff 5.52 a 6.23) yn nodi mai 4 maes sydd eu hangen. A oes angen dybryd neu beidio? Rhaid i'r Cynllun Adneuo sicrhau bod safleoedd addas a chyflawnadwy yn cael eu nodi i fynd i'r afael â lefel yr angen pan fo angen.

Y Gymraeg

Mae Papur Pwnc 17 yn diffinio wardiau lle y mae'r Cyngor yn ystyried y Gymraeg i fod yn arbennig o bwysig a lle y mae 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg. Os ystyrir yn briodol, dylai'r Cynllun Adneuo gynnwys polisiau priodol o ran y Gymraeg.

Llifogydd

Mae'r Cynllun yn nodi bod perygl llifogydd yn fater allweddol. Dylai'r Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos ei fod wedi cydymffurfio â pholisiau cenedlaethol, bod pob dyraniad yn addas ar gyfer y twf arfaethedig a bod modd eu cyflenwi. Ni ddylid dyrannu unrhyw safleoedd ar gyfer datblygiadau risg uchel o fewn ardal perygl llifogydd C2 a rhaid sicrhau bod y profion cyfiawnhau perthnasol wedi'u cynnal ar gyfer pob datblygiad arall (lle bo'n briodol). Byddai'r Cynllun Adneuo hefyd yn elwa ar bolisi cadarn i atgyfnerthu safbwynt y polisi cenedlaethol wrth asesu ceisiadau cynllunio.

Tir Amaethyddol

Nodwn fod Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV) yn cyfyngu ar ddatblygiadau yn y Sir. Dylai'r Cynllun Adneuo ddangos tystiolaeth ar gyfer unrhyw ddyraniadau arfaethedig a bod cyn lleied â phosibl o dir BMV yn cael ei golli, yn unol â pharagraff 4.10.1 o Bolisi Cynllunio Cymru. Hoffwn dynnu eich sylw at e-bost diweddar ynglŷn â thir BMV a anfonwyd ar 27/11/17 a'r newidiadau i statws y mapiau.

Mwynau

Polisi Strategol STR16 – Cynllunio Strategol ar gyfer Mwynau – Nodwn fod yr Awdurdod yn bwriadu bodloni gofynion Adolygiad cyntaf y Datganiad Technegol Rhanbarthol a chadw'r banc tir tywod a gro gofynnol, yn ogystal â chreigiau mâl, drwy ymestyn chwareli presennol. Rhaid i'r Cynllun Adneuo ddarparu dyraniadau penodol er mwyn bodloni gofynion y polisi cenedlaethol. Mewn perthynas â maen prawf iv, nid yw'n un o ofynion y polisi cenedlaethol i nodi ardaloedd lle na fyddai echdynnu mwynau yn dderbyniol. Dylai'r Awdurdod egluro ei fwriad, er enghraifft, a yw hynny'n gymwys yn unig i ardaloedd lle na fyddai cloddio am lo yn dderbyniol (Polisi Cynllunio Cymru, paragraff 14.7.11) neu a yw'n berthnasol i'r defnydd o barthau byffer?

Dylai'r Cynllun Adneuo:

- Nodi'r strategaeth eang ar gyfer gweithio mwynau dros gyfnod y Cynllun;
- Diogelu adnoddau mwynol, gan gynnwys adnoddau glo primaidd ac eilaidd;
- Cynnal a chadw banc tir ar gyfer tywod a gro, a chreigiau mâl yn unol ag Adolygiad cyntaf y Datganiad;
- Gosod parthau byffer o amgylch safleoedd gweithio mwynau arfaethedig a rhai sydd wedi'u caniatáu, a ategir gan y polisi;
- Cynnwys polisi gweithio mwynau lleol i sicrhau bod modd asesu'n briodol effeithiau unrhyw geisiadau yn y dyfodol ar yr amgylchedd, ar amwynderau ac ar iechyd;
- Asesu'r tebygolrwydd o ddefnyddio safleoedd segur ac os yw'n briodol, nodi strategaeth glir a darparu eglurhad ar gyhoeddi gorchmynion gwahardd;
- Nodi ardaloedd lle na fyddai cloddio am lo yn debygol o fod yn dderbyniol yn y dyfodol;
- Nodi a diogelu unrhyw lanfeydd a phennau rheilffyrdd presennol neu bosibl;
- Annog defnyddio adnoddau naturiol yn gall a hyrwyddo'r defnydd o adnoddau a ailgylchwyd, agregau eilaidd a gwastraff i sicrhau bod llai o adnoddau primaidd yn cael eu hechdynnu; ac
- Os yn berthnasol, ddangos y sail resymegol am ddyrannu safleoedd tai a chyflogaeth o fewn ardaloedd diogelu mwynau a chyflwyno tystiolaeth bod echdynnu blaenorol wedi'i ystyried.

Monitro

O ran y Cynllun Adneuo, mae'n hollbwysig bod y fframwaith monitro yn cynnwys trothwyon a phwyntiau gweithredu allweddol fel bod modd cymryd camau priodol ymlaen llaw er mwyn osgoi diffyg cyflenwi. Mae nifer sylweddol o Gynlluniau Datblygu Lleol wedi'u mabwysiadu sy'n darparu enghreifftiau o arferion da y gallai'r Awdurdod elwa arnynt.
